

Cofion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Hefina Thomas (Llanfair) yn dilyn marwolaeth sydyn ei chwaer. Ein dymuniad yw y bydd hi a'r teulu, ac eraill o'n plith sydd wedi wynebu profedigaeth yn ystod yr wythnos, yn adnabod tangnefedd a digon Duw'r dyddiau hyn.

Yr un yw'n dymuniad i sawl un arall o'r Fro sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn. Cofiwn yn arbennig am Anwen Hughes (Saron) yn Ysbyty Maelor; Robert Williams, Doreen Evans a Harold Lloyd (Tanyfron) yn Ysbyty Glan Clwyd; a Barbara Williams (Henllan) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan hyderu y byddan nhw a'u teuluoedd yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Da deall bod Gruffydd Jones (Llansannan) wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Hyderwn y bydd ef, ac eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd, yn cael adferiad iechyd buan iawn.

Adnoddau

Os oes rhywun yn dymuno cael copi DVD o'r Cyfarfod Sefydlu a Chomisiynu a gynhaliwyd nos Sul, Hydref 2il, rhowch wybod i Mair (870632) erbyn Hydref 31ain, os gwelwch yn dda. Pris: £5.00.

Yn yr un modd, os oes rhywun yn dymuno derbyn yn wythnosol gopi maint mwy bras o Llais Bro Aled, rhowch wybod i Mair. Mae'r maint presennol yn A5 ond gellir argraffu copi dwbl y maint, sef A4 neu ddwbl y maint hwnnw hefyd, sef A3, a'u hanfon i'r eglwysi gyda'r pecynnau eraill, yn gwbl ddi-drafferth!

I ddod

- **Gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghefn Meiriadog** dydd Llun, Hydref 24ain. Cynhelir gwasanaeth y plant am 3.30 a bydd oedfa am 7.00 gyda'r Parch Huw John Hughes yn pregethu.
- **Gwasanaethau Diolchgarwch Llansannan:** Nos Fercher, Hydref 26ain - Oedfa yng Nghapel Bethania am 7.30 gyda'r Parch Tom Evans Williams yn pregethu. Dydd Sul, Hydref 30ain - Gwasanaeth y Plant yng Nghapel Coffa Henry Rees am 10.00 ac oedfa yng Nghapel Bethania am 5.30 gyda'r Parch John Lewis Jones yn pregethu.
- **Teulu Dedwydd?** - Diwrnod o gymdeithasu, hyfforddiant, ysbrydoli a chefnogaeth i rieni; arweinwyr eglwysig; a gweithwyr plant, ieuencid a theuluoedd yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Hydref 29ain o 10:30 – 3:00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16^{eg} Hydref 2011

Canwch salmau i'r ARGLWYDD, canys
eniillodd fuddugoliaeth; hysbyser hyn
yn yr holl dir. (Eseia 12:5)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso mawr i oedfaon y dydd newydd hwn o ras ein Duw! Wrth imi ysgrifennu dwi ddim yn gwybod beth fydd sgor Y GÊM FAWR! gan mai dydd Iau ydi hi arna i ar hyn o bryd! Ond rwy'n edrych 'mlaen. Fydd y canlyniad ddim o dragwyddol bwys a theimlad gorfoleddus fydd cyrraedd y ffeinal! Hyd yn oed os ddaru'r hen Ffrancod yna godi'u gêm ac ennill – mae wedi bod yn gystadleuaeth i'w chofio eleni!

Fel y gwyddoch, mae gen i deulu yn Ffrainc ac mae genod fy mrawd yn hoff iawn o rygbi! Cefais fy nysgu i ganu 'La Marseillaise' o flaen un o'r gemau rhwng y ddwy wlad gan fy nith, a cheisiais innau ddysgu Hen Wlad fy Nhadau iddi hithau. Roedd y cefnogwyr pybr o'n cwmpas yn methu'n glir a deall pan fyddai Pasqalline yn codi i ganu'r ddwy anthem ac yn bloeddio mewn gorfoledd pwy bynnag fyddai'n sgorio. Dyna beth oedd sefyllfa win-win! Roedd ganddi het draig a beret Ffrainc a rheiny'n cael eu newid ar yn ail pob tro yn dibynnu ar dras y tîm oedd yn sgorio!

Fedra i ddim rhannu ei hyblygrwydd! Cymro ydw i er y byddai'n llawen drosti OS yr aiff hi yn ein herbryn fore Sadwrn. Bydd Pasqalline yn hapus doed a ddelo!

Ydi hi'n iawn cymryd ochr weithiau? Debyg 'i bod hi. Mae cymryd ochr gyda Christ o dragwyddol bwys. Yn ei erbyn o yr ydym o ran anian a chael ein goleuo gan ei ras a wnawn wrth ddod i'w ochr. 'Cael ein tynnu' fyddai'n ddisgrifiad gwell efallai. Dyma Un a gafodd fuddugoliaeth dros ei holl elynion ar Galfaria. A'i wrthwynebwyr o yw ein gwrthwynebwyr ni bellach. I bawb sy'n brwydro heddiw yn erbyn afiechyd, galar ac ofn, cofiwch fod yn yr Iesu fuddugoliaeth dragwyddol ei pharhad a nerth i gario'r dydd.

Wel! Gobeithiaf am lwyddiant i Gymru – llwyddiant hanesyddol! Efallai erbyn wythnos nesa y bydd edrych ymlaen at gêm fwy fyth – y ffeinal ei hun! Ond un peth yw gwneud eich marc yn hanesyddol, peth arall yw gwneud marc sydd o dragwyddol bwys. A dyna wnaeth Iesu ar y pren! Buddugoliaeth sy'n mynd i effeithio ar dragwyddoldeb pob un ohonom. Pwyswn arno! Rhown ein ffydd a'n hymddiriedaeth ynddo.

Cofiwn yn annwyl am y rhai sydd yng nghanol triniaethau hir y dyddiau hyn. Mae angen nerth mawr i wynebu'r dyddiau. Gweddïwn, bawb ohonom, dros ein gilydd a thros deuluoedd y Fro sy'n mynd trwy'r stormydd. Byddaf yn pregethu heno, os Duw a'i myn, ar y pumed arwydd yn Efengyl Ioan sef hanes Iesu'n cerdded ar y dŵr. Gweddïwn y byddwch yn profi ei bresenoldeb a'i Arglwyddiaeth fel y gwnaeth y disgyblion cynnar hynny.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau
i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Taith y Cyfundebau 2011** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug - Cyflwyniad "Annibynwyr Cymru" gan y Parch. Ddr. Geraint Tudur am 7.00. Croeso i bawb.
- Mawrth • **Taith y Cyfundebau 2011** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug – Trafodaeth anffurfiol yn seiliedig ar ddarnau byr o'r Beibl am 2.00, Seiat Holi am 4.00, a Gwasanaeth byr ar y thema 'Beth nesaf' gyda'r Parch. Ddr. Geraint Tudur am 7.00. Croeso i bawb.
• **Cyfarfod Chwiorydd Eglwysi Groes, Peniel a Nantglyn** yng Nghapel y Groes am 7.30 pryd y bydd Anna Jane o Fudiad Cymorth Cristnogol yn dod i sôn am ei hymweliad â Guatemala. Lansiwyd apêl 2012 yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llanbed ym mis Medi a'r gobaith yw codi £200,000 tuag at waith Cymorth Cristnogol yn y wlad arbennig hon. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni a chroeso i'r brodyr hefyd. Gwneir casgliad.
- Mercher • **Adnabod – Noson gymdeithasol** yn Festri Llansannan am 8.00. Croeso i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Yn dilyn yr oedfa, bwriedir tynnu llun o holl aelodau'r Capel gyda'r gweinidog newydd. Bydd cinio wedi ei baratoi i bawb yn y Festri a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yn syth ar ôl cinio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa undebol yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Gron Ellis yn arwain oedfa ddiolchgarwch yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Noson agoriadol y Gymdeithas yn y Festri am 7.30 gyda pharti o Lanrhaeadr yn diddanu.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 2.00 ac yn cyfarch y tri gafodd eu derbyn yn ddiweddar yn gyflawn aelodau. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Llun Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pant Pastynog yng Nghapel Saron am 6.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Rhodri yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Iau Paned a sgwrs yn y caffi yn Henllan am 3.00.
Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Rhydgaled yng Nghapel Groes am 2.15, a bydd oedfa am 7.00 yr hwyr o dan arweiniad Dr Rhodri Glyn.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Yn ystod yr oedfa, cyflwynir rhodd i'r Canon Philip Williams fel gwerthfawrogiad am ei wasanaeth yn y gymdeithas, a bydd lluniaeth ysgafn i bawb yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa arbennig i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Mercher Gŵyl Ddiolchgarwch yn Llanefydd am 7.00 gyda Mr David Owens yn pregethu.
- Gwener Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Tom Wright.
- Sul nesaf Bydd y Parch R W Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.